


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llyfryn Rheolau Cyffredinol

## y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

## Atodiad Mawrth 2021

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig

2014-2020

# Cynnwys


Cyflwyniad ........................................................................................2

Adran Negeseuon Allweddol - Newidiadau o ffenestr SPG 6....................3

Ychwanegiadau ..........................................................................3

Newidiadau ................................................................................3

Cysylltiadau .....................................................................................4


© Hawlfraint y Goron 2021 ISBN digidol: 978-1-80195-065-7

# Cyflwyniad

Mae'r atodiad hwn yn cyfeirio at Lyfr Rheolau Cyffredinol Grant Cynhyrchu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021. Mae'r holl newidiadau ac ychwanegiadau a wnaed i adran Negeseuon Allweddol y llyfryn gwreiddiol.

# Adran Negeseuon Allweddol - Newidiadau o ffenestr SPG 6

## Ychwanegiadau

- Mae ymgeiswyr llwyddiannus o bob rownd flaenorol o SPG, gan gynnwys rowndiau 1, 2 a 3, yn gymwys i gyflwyno Cais Datgan Diddordeb ar gyfer rownd 7 SPG.

## Newidiadau

**Pwynt 3 -** geirfa

- *Os ydych yn ymgeisio am gymorth ar gyfer storfa slyri, rhaid iddi allu dal y tail moch a dofedndod a gynhyrchir ar y daliad rhwng 1 Hydref ac 1 Ebrill (6 mis) ac unrhyw dail arall a gynhyrchir mewn buarth neu adeilad ar y daliad rhwng 1 Hydref ac 1 Mawrth (5 mis), gyda digon o gapasiti hefyd i gwrdd â'r cyfyngiadau yn y rheoliadau ar wasgaru tail.*

Bellach wedi newid i:

- Os ydych yn ymgeisio am gymorth ar gyfer storfa slyri rhaid iddi allu dal y tail moch a dofedndod a gynhyrchir ar y *daliad* rhwng 1 Hydref ac 1 Ebrill, ac unrhyw dail arall a gynhyrchir mewn buarth neu adeilad ar y *daliad* rhwng 1 Hydref ac 1 Mawrth, gyda digon o gapasiti hefyd i gwrdd â'r cyfyngiadau yn y rheoliadau ar wasgaru tail.

**Pwynt 5 -** geirfa

- *Rhaid cyfrif swm y slyri/tail a gynhyrchir gan yr anifeiliaid ar y daliad yn unol â'r ffigurau safonol yn **Atodiad 2.***

*Gweler **Ffermio a Chefn Gwlad - Rheoli Tir***

Bellach wedi newid i:

- Rhaid cyfrif swm y slyri/tail a gynhyrchir gan yr anifeiliaid ar y *daliad* yn unol â'r ffigurau safonol yn **Atodiad 2 o'r Rheolau yn yr Adran Llygredd Fferm**

Gweler **Ffermio a Chefn Gwlad - Rheoli Tir**

**Pwynt 7 -** geirfa

- *Os ydych yn gwneud cais am **offer gwasgaru slyri neu storfa silwair** a chyn y gellir rhoi grant ichi ar gyfer yr eitemau hyn, bydd angen ichi allu dangos y bydd gan eich*

*fferm erbyn 1 Awst 2024 o leiaf ddigon o le storio i fodloni Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2020.*

Bellach wedi newid i:

Os ydych yn gwneud cais am **offer gwasgaru slyri neu storfa silwair** a chyn y gellir rhoi grant ichi ar gyfer yr eitemau hyn, bydd angen ichi allu dangos y bydd gan eich fferm erbyn 1 Awst 2024 o leiaf ddigon o le storio i fodloni Rheoliadau.

**Pwynt 8 -** geirfa

- *O* ***28 Mawrth 2021,*** *mae'r gofyn i roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig eich bod wedi cael storfa slyri neu silwair newydd, neu'ch bod wedi'i chynyddu'n sylweddol neu ei hailadeiladu'n sylweddol, yn newid. Rhaid nawr rhoi gwybod am y newid o leiaf 14 diwrnod cyn bod y gwaith adeiladu'n dechrau.*

Bellach wedi newid i:

- O **28 Ebrill 2021,** mae'r gofyn i roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig eich bod wedi cael storfa slyri neu silwair newydd, neu'ch bod wedi'i chynyddu'n sylweddol neu ei hailadeiladu'n sylweddol, yn newid. Rhaid nawr rhoi gwybod am y newid *o leiaf 14 diwrnod cyn bod y gwaith adeiladu'n dechrau.*

# Cysylltiadau

## RPW Ar-lein

Gallwch fynd at wasanaethau RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth yn www.gateway.gov.uk, neu ar ôl ichi gofrestru ar gyfer gwasanaethau RPW Ar-lein, ewch i RPWArlein. Os nad ydych wedi cofrestru eto ag RPW Ar-lein, ewch i wefan Llywodraeth Cymru am wybodaeth ar sut i gofrestru neu ffoniwch Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

## Ymholiadau - y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â'r RPW Ar-lein Canolfan Gyswllt
Gallwch ofyn cwestiwn unrhyw bryd ar RPW Ar-lein unrhyw bryd.

## Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb y gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru. Bydd cyfle ichi gofrestru arni am y daflen e-newyddion, Gwlad.